Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Mehefin 10, 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Y Maer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Dirprwy Faer y Cyng Chris Parish, y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Roy Davies, y Cyng Richard Wallace, y Cyng Dawn Wallace, y Cyng Edward Thomas, y Cyng Fran Murphy
Clerc y Dref
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Cyng Julia Jones

Cof 68 / Mehefin / 09 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio

Cynigwyd y Cyng Roy Davies gan y Maer y Cyng Charlotte Leadbeater. Eiliwyd hyn gan y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Roy Davies yr enwebiad.

Cof 69 / Mehefin / 09 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio.

Cynigiwyd y Cyng Dawn Wallace gan y Cyng Chris Parish. Eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Dawn Wallace yr enwebiad.

Cof 70 / Mehefin/ 09 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/ 21146 Estyniad bach ar gyfer grisiau ychwanegol yng nghefn yr adeilad (newid i ganiatâd cynllunio E/16451) yn Fronlas, 7, Heol Tomos.
Sylw : Dim gwrthwynebiad.

E/ 20141 Ail gyflwyniad, wedi ei wrthod yn wreiddiol ar 18.12.08 ar gyfer tŷ sengl 2 ystafell wely ar dir tu ôl i 56, Heol Newydd.
Pwyllgor Cynllunio'r Sir i wneud ymweliad safle am 11am ar 27.5.09. I'w ystyried am 12 canol dydd yn Neuadd y Sir CSC ar 27.5.09.

Cof 71 / Mehefin / 09 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/20141 Adnewyddu to diffygiol a rendro allanol yn Myrtle Hill, Heol y Banc.
CANIATAWYD

E/19797 Estyniad ac addasiadau i adeilad rhestredig gradd 2 yn Llwynhelig.
CANIATAWYD

E/20694 Tŷ sengl 2 ystafell wely (ail gyflwyniad o E/20141 wedi ei wrthod ar 18.12.08) ar dir tu ôl i 56, Heol Newydd.
CANIATAWYD

Cof 72 / Mehefin/ 09 Nid oedd unrhyw Geisiadau Cynllunio wedi eu tynnu'n ôl.

Cof 73 / Mehefin/ 09 Nid oedd unrhyw Apeliadau Cynllunio

Cof 74/ Mehefin /09 Materion Cludiant a Phriffyrdd

Llythyr oddi wrth Swyddog CSC, Trevor Sage, ynglŷn ag ymgynghori ynghylch peintio llinellau dwbl tu allan i Adeiladau'r Banciau a'r ymateb oddi wrth Dechnegydd CSC, Alison Roberts, i sylwadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Cynllunio. Cytunwyd y dylai'r Clerc wahodd yr Adran Briffyrdd, Rheolwr Traffig CSC, yr Asiantaeth Cefnffyrdd a'r Heddlu i fynychu ymweliad safle ddydd Llun, 6 Gorffennaf, 2009 am 9.30am. Gwahoddwyd holl Gynghorwyr y Pwyllgor Cynllunio i fynychu os oeddent ar gael.
Argymhellion y pwyllgor fyddai cefnogi peintio llinellau melyn dwbl ac i gyfeiriad y llif traffig aros fel y mae ar hyn o bryd.

Cof 75 / Mehefin / 09 Goleuadau

Darparodd y Swyddog Technegol restr o'r holl oleuadau cyhoeddus o dan gyfrifoldeb y cyngor. Byddai'r Clerc yn darparu copi i bob Cynghorwr.

Cof 76/ Mehefin / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd Mr Davies wedi cwrdd â chynrychiolydd o'r Asiantaeth Cefnffyrdd ynglŷn â'r goleuadau Nadolig. Byddai'n rhaid i'r Cyngor lunio datganiad dull i egluro sut bydd y goleuadau yn cael eu codi heb rwystro traffig. Gallai hyn arwain at gostau llawer yn uwch ar gyfer codi'r goleuadau Nadolig yn y dyfodol.
Cytunwyd y dylai Mr Davies ofyn am brisiau ar gyfer gosod dau fin ychwanegol ar hyd y Cilgant ar gyfer casglu sbwriel yn ogystal â phrisiau am farneisio'r byrddau a'r cadeiriau.
Bu trafodaeth ynghylch cyflwr Pont y Brenin. Gofynnwyd i'r Clerc anfon copïau o'r lluniau a gymerwyd gan Mr Davies i Gyngor Cymuned Dyffryn Cennen am eu sylwadau. Cytunwyd y dylai'r Cyngor ystyried prosiect i hyrwyddo'r ardal o amgylch yr orsaf drenau a draw at Bont y Brenin.

Cof 77 / Mehefin /09 Gohebiaeth

1. Clwb Garddio Llandeilo ynghylch cyflwr y planwyr a'r pridd. Gofynnwyd i'r Clerc cysylltu â'r CS Ieuan Jones am ei gymorth i gael staff CSC i roi dŵr i'r gwlâu blodau, ac i atgoffa'r staff fod yna gyflenwad o ddŵr gerllaw. Byddai'r Cyng Edward Thomas yn cysylltu â'r Clwb Garddio yn rhan o Landeilo yn ei Blodau.
2. Copi o'r llythyr a anfonwyd gan y Cyng Edward Thomas i Wasanaethau Stryd ynglŷn â King's Bridge. Nodwyd.
3. Mrs Hillier parth. Y Ganolfan Groeso. Bydd y Clerc yn cydnabod y llythyr ac yn ei roi ar Agenda'r Cyngor Llawn.

Cof 78/ Mehefin/ 09 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau arbennig yn ôl y Cadeirydd yn haeddu sylw brys yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Adroddodd y Maer am garthion sy'n gollwng ar waelod Stryd y Cei. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â CSC.
Adroddwyd bod CSC wedi cau Parc Chwarae Maes y farchnad. Cytunwyd i roi ardaloedd hamdden ar Agenda'r cyfarfod Cyngor Lawn ar Fehefin 24ain.
Rhoddwyd caniatâd i'r Cyng Roy Davies fynd at yr Ymddiriedolaeth Ddinesig ynglŷn â menter ar y cyd o dan y prosiect Drysau Agored, i'w chynnal ym mis Medi.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 p.m.